THIS IS A BILINGUAL DOCUMENT – PLEASE SCROLL DOWN FOR THE ENGLISH

Pwyswch yma er mwyn cael gwybodaeth am Delerau Mynediad.

Rhowch dic er mwyn cadarnhau eich bod wedi darllen dogfen telerau mynediad Awyr Las a'i derbyn.

Drwy roi tic rydych yn cytuno i delerau ac amodau'r digwyddiad a amlinellir o fewn yr 'Amodau Mynediad Taith Gerdded Wrth Dy Ochr'.

Amodau Mynediad Taith Gerdded Wrth Dy Ochr

Drwy ddod yn rhan o'r daith gerdded , rydych yn cytuno i gadw at yr Amodau Mynediad hyn ac unrhyw gyfarwyddiadau cerdded sy'n cael eu rhoi i chi gan y trefnwyr a swyddogion y Daith Gerdded Wrth Dy Ochr. Mae bob unigolyn yn cymryd rhan yn ôl ei risg ei hun.

Oedran Mae'n rhaid i oedolyn addas fod gydag unigolion dan 18 oed.

Am resymau diogelwch: Ni chaniateir i unigolion sy'n gwisgo esgidiau sglefrio, mewn berfau neu sy'n cario amrywiol wrthrychau ar gyfer elusennau ayyb gymryd rhan mewn unrhyw ras os nad ydynt wedi cael cydsyniad ymlaen llaw gan drefnwyr y digwyddiad.

Offer Disgwylir i gyfranogwyr gael yr offer addas, gydag esgidiau a dillad priodol ar gyfer cerdded waeth bynnag fo'r tywydd.

Ffi Mynediad: Ni ellir rhoi arian yn ôl am ffioedd mynediad, tocynnau perthynol a phryniadau. Dim Anifeiliaid: Ni chaniateir anifeiliaid heblaw am gŵn tywys; mae'n rhaid gwneud trefniadau ar gyfer cŵn tywys gyda'r trefnwyr cyn y digwyddiad.

Cyflwr Meddygol: Argymhellir eich bod chi'n hyfforddi ar gyfer y daith gerdded ac yn paratoi at yr her. Cynghorir pawb sy'n cymryd rhan yn gryf i ymgynghori â'u meddyg cyn ymgymryd ag unrhyw raglen ymarfer corff. Cyfrifoldeb pawb sy'n cymryd rhan yw sicrhau eu bod yn ffit yn feddygol i gymryd rhan yn y digwyddiad.

Defnydd o Luniau: Drwy gymryd rhan yn y ras rydych yn rhoi caniatâd i ddefnyddio'ch enw, llais neu lun yn rhydd mewn unrhyw ddarllediad, telediad, hysbyseb, hyrwyddiad neu unrhyw gofnod arall o'r digwyddiad hwn.

Canslo'r Digwyddiad: Dim ond oherwydd amgylchiadau anrhagweladwy ac anochel y bydd y digwyddiad yn cael ei ganslo neu ei ohirio. Yn y fath achos, bydd bob unigolyn sy'n cymryd rhan yn cael gwybod drwy e-bost cyn gynted â phosibl. Ni fydd y trefnwyr yn gyfrifol am unrhyw ffioedd mynediad, costau na threuliau a all ddigwydd o ganlyniad i'r fath ganslo neu ohiriad.

Casglu Gwybodaeth a'i Defnyddio: Rydych yn cydnabod ac yn cytuno bod eich gwybodaeth bersonol (yn cynnwys gwybodaeth feddygol sydd wedi'i chofnodi ar eich rhif ras neu wedi'i chasglu gan staff y Digwyddiad yn ystod y Digwyddiadneu ar ei ôl) yn gallu cael ei chadw, ei defnyddio a'i datgelu gan y trefnwyr mewn cysylltiad â'r digwyddiad, hyrwyddiad a gweinyddu'r digwyddiad ac ar gyfer casglu gwybodaeth ystadegol.

Diogelu Data: Mae taith gerdded Wrth Dy Ochr yn cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998 ac mae gennych hawl i gael mynediad at gofnodion personol a gedwir ar gyfrifiadur y trefnydd wrth wneud cais ysgrifenedig. Bydd eich enw'n cael ei ychwanegu at restr e-bostio'r trefnydd fel y gallwn roi gwybod i chi am ddigwyddiadau a gweithgareddau eraill y trefnwyr digwyddiad.

Rhif y Digwyddiad (bibiau): Am resymau diogelwch ac yn bennaf fel bod staff meddygol yn eich adnabod, mae cyfnewid, gwerthu, ailwerthu neu drosglwyddo rhifau ras (bibiau) wedi ei wahardd yn llwyr. Mae'n rhaid i'r rhail sy'n cymryd rhan gwblhau eu manylion ac arwyddo cefn eu rhif ras cyn y digwyddiad.

Diarddel o'r Digwyddiad: Mae gan y trefnwyr yr hawl i wrthod unrhyw unigolyn i fod yn bresennol yn y daith gerdded Wrth Dy Ochr neu gymryd rhan ynddi. Rydym yn ymdrechu i drefnu digwyddiadau diogel a phleserus, ac yn gobeithio y byddwch yn ein helpu ni gyflawni hyn. Bydd unrhyw unigolyn sy'n cael ei weld yn torri'r telerau a'r amodau hyn yn cael ei wahardd o unrhyw ddigwyddiadau yn y dyfodol. Peidiwch â rhoi unrhyw un arall mewn perygl.

Newid Cyfeiriad: Os yw eich cyfeiriad yn newid ar ôl i chi gyflwyno eich cais mae'n rhaid i chi roi gwybod i'r trefnwyr drwy e-bost byyourside@wales.nhs.uk.

Trefnydd: Y trefnydd yw Awyr Las, Elusen GIG Gogledd Cymru. Rhif Elusen Cofrestredig: 1138976. Tîm Cefnogi Codi Arian, Ysbyty Gwynedd, Penrhosgarnedd, Bangor, LL57 2PW.

Conditions of Entry

By entering the walk, you agree to abide by these Conditions of Entry and any instructions given to you by the organisers and officials of the By Your Side Walk. All entrants and supporters take part at their own risk.

Age Participants under the age of 18 must be accompanied by a suitable adult. If completing an entry form on behalf of a minor, you are confirming that they are medically fit to take part in the event.

For reasons of safety: Entries are not permissible from people on roller skates, wheelbarrows or carrying various objects for charity etc in any race unless prior consent has been granted by the event organisers.

Equipment Participants are expected to be suitably equipped with appropriate footwear and clothing for walking in whatever weather circumstances dictate.

Entry Fee: All entry fees, related tickets and purchases are non-refundable. **No Animals**: Animals will not be permitted with the exception of guide dogs; arrangements for guide dogs must be made with the organisers ahead of the event.

Medical Condition: It is recommended that you train for the walk and prepare for the challenge. All participants are strongly advised to consult their doctor prior to undertaking any exercise programme. It is the responsibility of all participants to ensure they are medically fit to participate in the event.

Use of Image: By entering the race you give permission for the free use of your name, voice or picture in any broadcast, telecast, advertising, promotion or other account of this event.

Event Cancellation: The event will only be cancelled or postponed due to unforeseen and unavoidable circumstances. In such an eventuality all participants will be notified by email as soon as possible. The organisers shall not be liable in respect of any entry fees, costs and expenses you may incur as a result of such cancellation or postponement.

Collection & Use of Information: You acknowledge and agree that your personal information (including medical information entered on your race number or collected by Event staff during or

after the Event) can be stored, used and disclosed by the Organiser in connection with the organisation, promotion and administration of the Event and for the compilation of statistical information.

Data Protection: The By Your Side walk complies with the Data Protection Act 1998 and you have the right of access to personal records held on the organiser's computer on written request. Your name will be added to the organiser's mailing list so that we can keep you informed about the other events and activities of the event organisers.

Event Numbers (bibs): For safety reasons and primarily for identification by medical staff, the swapping, sale, resale or transfer of numbers (bibs) is strictly prohibited. Participants must complete their details and sign the back of their number prior to the event.

Event Ejection: The organisers reserve the right to refuse an entrant's attendance at or participation in the By Your Side walk
We strive to organise safe and enjoyable events and hope that you will help us in achieving this. Any participant who is found in breach of these terms and conditions will be excluded from future events. Please do not put someone else at risk.

Change of Address: If your address details change after you have submitted your application you must notify the organisers by email byyourside@wales.nhs.uk .

Organiser: The organiser is Awyr Las / Blue Sky, North Wales' NHS Charity. Registered Charity Number: 1138976. Awyr Las Fundraising Support Team, Ysbyty Gwynedd, Penrhosgarnedd, Bangor, LL57 2PW.